



Mae Jo Richards, Cyfarwyddwr Rheoleiddio gyda Cymwysterau Cymru, yn edrych ymlaen at yr hyn y gallwn ei ddisgwyl pan gaiff canlyniadau arholiadau TGAU a Safon Uwch eleni eu rhyddhau.

Wrth i fyfyrwyr barhau â'u gwyliau haf mae byrddau arholi a'u harholwyr yn gweithio'n galed – yn marcio ac yn pennu ffiniau gradd mewn pryd i'r diwrnodau canlyniadau ym mis Awst. Gyda sawl cymhwyster newydd yn cael eu hastudio am y tro cyntaf yng Nghymru eleni, efallai y byddwch yn gofyn, beth y gallwn ei ddisgwyl?

Wel mae newidiadau sylweddol i arholiadau TGAU Saesneg, Cymraeg a Mathemateg. Cyflwynwyd y cymwysterau diwygiedig hyn ym mis Medi 2015, a'r cyfle cyntaf i ddisgyblion eu sefyll ar ôl cwblhau'r cwrs dwy flynedd oedd yr haf hwn.

Ar gyfer Mathemateg, un o'r newidiadau mwyaf amlwg yw lle gynt roedd un arholiad, mae dau bellach – TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg Rhifedd. Yn flaenorol, roedd gan fyfyrwr yr opsiwn hefyd o sefyll naill ai arholiadau haen sylfaenol neu haen uwch, ond mae ganddynt ddewis o dair haen mynediad bellach - sylfaenol, canolradd ac uwch.

Y newid mawr arall oedd i TGAU Saesneg laith, sy'n sylweddol wahanol. Roedd gwaith cwrs ysgrifenedig yn cyfrif am 20 y cant o'r radd derfynol yn flaenorol. Mae hynny bellach wedi'i ddileu, gydag 80% o'r cymhwyster bellach yn seiliedig ar ddau bapur arholiad sy'n canolbwyntio ar ddarllen ac ysgrifennu. Mae'r asesiad siarad a gwrando yn dal i fod yn rhan o'r cymhwyster ac mae'n cyfrannu'r 20 y cant sy'n weddill tuag at y radd derfynol.

Mae newidiadau tebyg wedi bod i TGAU Cymraeg laith hefyd. Mae bellach yn cynnwys dau asesiad siarad a gwrando, tasg grŵp a thasg unigol, sy'n cyfrif am 30 y cant o'r radd derfynol. Mae'r 70 y cant sy'n weddill yn seiliedig ar ddau bapur arholiad sy'n canolbwyntio ar ddarllen ac ysgrifennu.

Mae cymwysterau TGAU Llenyddiaeth Saesneg a TGAU Llenyddiaeth Gymraeg yn debyg i'r hen gymwysterau. Maent yn parhau i fod yn unedol sy'n golygu y gall myfyrwyr sefyll unedau a'u hailsefyll yn ystod y cwrs.

Heblaw am yr holl wahaniaethau amlwg i'r cymwysterau, mae natur y garfan sy'n sefyll yr arholiadau hefyd yn wahanol i flynyddoedd blaenorol, yn enwedig mewn TGAU Saesneg laith.

Mae data yn dangos bod nifer fawr o fyfyrwyr sydd dal ym mlwyddyn 10 wedi sefyll TGAU Saesneg laith. Gwnaeth tua 21,000 o ddisgyblion blwyddyn 10 yng Nghymru sefyll yr arholiad ym mis Mehefin, yn cynrychioli tua 65 y cant o'r holl ddisgyblion Blwyddyn 10 yng Nghymru.



Oherwydd y patrymau cofrestru gwahanol hyn, rydym yn disgwyl y bydd y canlyniadau cyffredinol ar gyfer TGAU Saesneg Iaith yr haf hwn yn is na blynyddoedd blaenorol. Felly, er mwyn helpu i esbonio sut y bydd canlyniadau eleni yn cymharu â blynyddoedd blaenorol, bydd ein trosolwg, unwaith y bydd y canlyniadau wedi'u cyhoeddi, yn canolbwyntio ar y disgyblion 16 oed ym Mlwyddyn 11. Er hynny, gyda'r holl newidiadau hyn, bydd yn anodd gwneud cymariaethau ystyrlon o flwyddyn i flwyddyn ym mis Awst.

Mae'n stori debyg gyda TGAU Cymraeg Iaith. Er bod llai na phum disgybl Blwyddyn 10 wedi sefyll yr arholiad yn 2016, gwnaeth ychydig dros fil ei sefyll ym mis Mehefin sy'n cyfrif am 21 y cant o'r cynnydd cyffredinol.

O ran TGAU Llenyddiaeth Saesneg, gwnaeth llai na 50 y cant o ddisgyblion Blwyddyn 11 sefyll yr arholiad eleni, er i rai ei sefyll pan oeddent ym Mlwyddyn 10 yn 2016. Bydd tua 70 y cant o holl ddisgyblion Blwyddyn 11 yng Nghymru wedi cael eu cofrestru ar gyfer yr arholiad naill ei eleni neu'n gynnar y llynedd – ond mae hyn yn llai na'r 77 y cant yn 2016.

Mae TGAU Llenyddiaeth Gymraeg yn dangos gostyngiad o 11 y cant yn nifer y myfyrwyr sy'n sefyll yr arholiad, yn rhannol oherwydd y gostyngiad yng nghofrestriadau Blwyddyn 10 eleni - i lawr o 130 yn 2016 i lai na phump yr haf hwn.

Yn ogystal â'r newidiadau i'r cymwysterau TGAU y soniwyd amdanynt yma, mae cymwysterau UG diwygiedig hefyd wedi cael eu sefyll mewn naw pwnc yr haf hwn – Drama, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Almaeneg, Cerddoriaeth, Sbaeneg, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol a Chymraeg Ail Iaith. Mae'r rhain yn ymuno â 14 o bynciau Safon Uwch diwygiedig eraill sy'n cael eu dyfarnu am y tro cyntaf eleni mewn Celf a Dylunio, Bioleg, Busnes, Cemeg, Cyfrifiadureg, Economeg, Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Saesneg Iaith a Llenyddiaeth, Hanes, Seicoleg, Ffiseg, Cymdeithaseg a Chymraeg.